

31 Hydref 2012

Cyfrifiad 2011: Amcangyfrifon ar ail Gyfeiriadau ar gyfer Awdurdodau Lleol ac Unedol yng Nghymru ac yn Lloegr

Cafodd data Cyfrifiad 2011 ar ail gyfeiriadau eu cyhoeddi ar 22 Hydref 2012 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Amcangyfrifon yw'r data hyn ar gyfer awdurdodau lleol ac unedol yng Nghymru ac yn Lloegr.

Roedd cwestiynau 5 a 6 ar holiadur Cyfrifiad 2011 yn gofyn am ail gyfeiriad.

Roedd cwestiwn 5 yn gofyn: "A ydych yn aros mewn cyfeiriad arall am fwy na 30 diwrnod y flwyddyn?"

Roedd cwestiwn 6 yn gofyn: "Pa fath o gyfeiriad yw'r cyfeiriad hwnnw?" Yr atebion posibl oedd:

- Cyfeiriad un o ganolfannau'r lluoedd arfog
- Cyfeiriad arall wrth weithio oddi cartref
- Cyfeiriad cartref myfyriwr
- Cyfeiriad myfyriwr yn ystod y tymor
- Cyfeiriad cartref rhiant neu warcheidwad arall
- Cyfeiriad tŷ gwyliau
- Arall

Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau yng Nghyfrifiad 2011 wedi'u gofyn o'r blaen mewn cyfrifiadau blaenorol, ond roedd yna rhai a oedd yn newydd, gan gynnwys y ddau gwestiwn hyn. Nid oedd gwybodaeth am ail gyfeiriadau wedi'i chasglu o'r blaen mewn unrhyw Gyfrifiad blaenorol: a dyma'r tro cyntaf i'r data hyn fod ar gael.

At ei gilydd, 1,570,224 o breswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr (2.8 y cant) a atebodd eu bod yn aros mewn cyfeiriad arall am fwy na 30 diwrnod y flwyddyn, a bod eu cyfeiriad arall mewn awdurdod lleol neu unedol a oedd yn wahanol i'r un yr oeddent yn byw ynddo fel arfer. O'r rhain, dywedodd 12 y cant mai diben yr ail gyfeiriad hwnnw oedd ar gyfer gweithio oddi cartref, ac 11 y cant mai'r diben oedd ar gyfer gwyliau; roedd y 77 y cant a oedd ar ôl yn cynnwys myfyrwyr, plant rhieni a oedd wedi gwahanu, a'r rhai hynny a ddewisodd 'Arall'.

Yn y rhestr o awdurdodau lleol ac unedol sydd â'r ugain canran uchaf o 'breswylwyr arferol a oedd yn byw rywle arall a chanddynt ail gyfeiriad yn yr awdurdod hwnnw (am ba reswm bynnag)' y mae pedwar o'r awdurdodau hynny yng Nghymru. Dinas Llundain sydd â'r ganran uchaf (18.5 y cant), ac wedyn Ynysoedd Scilly (12.1 y cant). Y pedwar awdurdod yng Nghymru yw:

- Gwynedd (9.9 y cant, y pedwerydd yn y rhestr)
- Ynys Môn (7.3 per y cant, y nawfed yn y rhestr)
- Sir Benfro (6.9 y cant, yr unfed ar ddeg yn y rhestr)
- Ceredigion (6.7 y cant, y pymthegfed yn y rhestr)

Mae'n bwysig bod pwyslais y canlyniadau canrannol hyn yn glir. Mae'n golygu bod 12,012 o'r bobl nad oeddent yn byw fel arfer yng Ngwynedd wedi dweud bod ganddynt ail gyfeiriad yng Ngwynedd (am ba reswm bynnag). Dyna 9.9 y cant o'r 121,874 o breswylwyr arferol sy'n byw yng Ngwynedd.

Mae bron hanner yr holl ail gyfeiriadau a ddefnyddir ar gyfer gwyliau (49 y cant) wedi'u lleoli mewn 20 awdurdod lleol neu unedol. Yr awdurdodau lleol a chanddynt y nifer fwyaf o ail gyfeiriadau ar gyfer gwyliau yw Cernyw (10,169) a Gwynedd (7,784). Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o ail gyfeiriadau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwyliau, sef 6.4 y cant o'i phoblogaeth o breswylwyr arferol.

Yn y rhestr o awdurdodau lleol ac unedol sydd â'r ugain canran uchaf o 'breswylwyr arferol a oedd yn byw rywle arall a chanddynt ail gyfeiriad ar gyfer gwyliau yn yr awdurdod hwnnw' y mae pump ohonynt yng Nghymru, sef:

- Gwynedd (6.4 y cant, y cyntaf yn y rhestr)
- Ynys Môn (4.1 y cant, y chweched yn y rhestr)
- Sir Benfro (3.5 y cant, y nawfed yn y rhestr)
- Ceredigion (3.0 y cant, y trydydd ar ddeg yn y rhestr)
- Conwy (2.8 y cant, y pedwerydd ar ddeg yn y rhestr)

Unwaith eto, mae'n bwysig bod pwyslais y canlyniadau canrannol hyn yn glir. Mae'n golygu bod 7,784 o'r bobl nad oeddent yn byw fel arfer yng Ngwynedd wedi dweud bod ganddynt ail gyfeiriad ar gyfer gwyliau yng Ngwynedd. Dyna 6.4 y cant o'r 121,874 o breswylwyr arferol sy'n byw yng Ngwynedd.

Gwybodaeth bellach

[Gwefan Office for National Statistics: 2011 Census: Number of people with second addresses in local authorities in England and Wales, March 2011](#)

Cyswllt

Llinell Ymholiadau Cyffredinol

Ffôn: 029 2082 3332

E-bost: stats.popcensus@wales.gsi.gov.uk